




"Mae'r pwnc yn heriol iawn ond mae'n ddiddorol iawn hefyd. Mae popeth yn dechrau gwneud ers y gwaith TGAU. Fodd bynnag, mae angerdd am y pwnc y tu allan i waith ysgol am eich cymell pan fydd y gwaith yn mynd yn anodd."

Megan Elias

"Roedd dewis ffiseg yn benderfyniad gwych gan ei fod wedi ehangu fy ngwybodaeth flaenorol ac wedi fy ngoleuo i wyddonwyr a damcaniaethau hynod ddiddorol sy'n cydymffurfio â'n bywyd bob amser! Mae gallu ailwneud arbrofion hanesyddol wedi fy arwain i feddwl am ein amgylchoedd yn agosach a beth yn union sy'n digwydd!"

Arwyn Foulkes

Ffiseg

Pam astudio Ffiseg?

Mae'r cwrs Ffiseg lefel A yn cynnwys llawer o destunau diddorol, megis Ffiseg Cwantwm, Uwchddargludedd, Laserau a hyd yn oed Seryddiaeth (UG: defnyddio pelydriad i gael dirnadaeth o nodweddion a chyfansoddiad sêr; Uwch: dadansoddi symudiad planedau, sêr a galaethau, sy'n arwain at y syniad o 'fater tywyll').

Mae CBAC hefyd yn cynnig 4 gwahanol 'opsiwn' (gweler Uwch, Uned 4, isod). Mae hyn yn galluogi'r Adran Ffiseg i deilwra'r cwrs ar gyfer yr ymgeiswyr.

Gofynion y cwrs

Bydd angen gradd B neu well mewn Gwyddoniaeth Ddwbl neu Ffiseg (TGAU), er y byddai gradd A neu well yn rhoi mwy o sicrhad y byddai'r myfyriwr yn ymdopi â gofynion y cwrs, ac mae astudio Mathemateg UG hefyd yn fanteisiol, ond ddim yn hanfodol.

Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

UG

Uned 1 - Ffiseg Sylfaenol, Cinemateg, Ffiseg Gronynnol a Phelydriad Serol
UG [50%] Uwch [20%]

Uned 2 - Tonnau a Goleuni, Trydan a chylchedau, Ffiseg Cwantwm a Laserau
UG [50%] Uwch [20%]

Uwch

Uned 3 - Symudiad cylchol, Osgiliadau, Ffiseg Thermol, Ymbelydredd ac Egni Niwclear ($E=mc^2$) Uwch [25%]

Uned 4 - Cynwysyddion, Meysydd Electrostatig a Meysydd Disgyrchiant, Orbitau a'r Bydysawd, (deddfau Kepler, Mater tywyll a Phlanedau all-solar), Magnetedd ac Anwythiad, + 1 o'r 4 OPSIWN : Ffiseg Feddygol, Ffiseg Chwaraeon, Damcaniaeth Cerrynt Eiledol, Egni a'r Amgylchedd. Uwch [25%]

Uned 5 - Arholiadau ymarferol mewn dwy ran. Uwch [10%]

Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Mae astudio Ffiseg Safon Uwch yn datblygu sgiliau datrys problemau, meddwl yn wrthrychol, a sgiliau dadansoddi. Bydd y cwrs yn datblygu sgiliau ymarferol hefyd sy'n allweddol mewn cymaint o feysydd byd gwaith. Bydd cymhwyster lefel A mewn Ffiseg yn rhoi sylfaen gadarn a thrwyadl i'r byd academiaidd a diwydiannol, ac fe'i hadnabyddir fel pwnc sy'n rhoi mynediad i amrediad eang o yrfaedd cyffrous, e.e. Seryddiaeth, Peirianeg, Electroneg, Mathemateg, Technoleg, Pensaerniaeth, Cemeg, Gwyddorau Biolegol a Meddygaeth, Roboteg, a Gwyddoniaeth gyfrifiadurol.

